

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN
(2011 – 2026)**

**ARCHWILIAD CYHOEDDUS:
Sesiwn gwrandawriad 2 – Darpariaeth Tai**



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

1. Pwynt Gweithredu 5 (S2/PG5) - Astudiaeth Capasiti Trefol

Gwirio sail y ffigyrau tai gwag a nodir yn yr Astudiaeth - a ydyw'n cynnwys elfen o ail gartrefi ai pheidio?

2. Ymateb y Cynghorau

- 2.1 Mewn ymateb i'r pwynt gweithredu uchod, cysylltwyd gyda Swyddogion Tai Gwag Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn ystod yr wythnos yn cychwyn 12 Medi, 2016. Fe gafwyd cadarnhad fod y ffigyrau tai gwag a gafwyd i oleuo'r Astudiaeth Capasiti Trefol yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd o Gofrestr Treth y Cyngor. Yn benodol, mae'r wybodaeth yn cyfleu'r eiddo hynny sydd wedi perthyn i Ddosbarth Eithrio C o Gofrestr Treth y Cyngor am gyfnod o dros 6 mis h.y. eiddo heb eu dodrefnu yn llawn a heb neb yn byw ynddynt.